

YDI DUW YN RHEOLI HEDDIW?

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i ddeall fod Jehofah, er ei fod yn caniatáu rhyddid inni ddangos beth ydi'n hagwedd ni tuag at ei hawl i lywodraethu, yn parhau i reoli materion yn ymwneud â'r ddaear. Anogwch nhw i werthfawrogi dull Jehofah o lywodraethu er mwyn codi awydd ynddynt i'w geisio a dilyn ei arweiniad

PAM MAI DUW DDYLAI FOD YN RHEOLI (3 mun.)

Ydych chi wedi meddwl o ddifrif beth ydi arwyddocâd Genesis 1:1?

Allan o beth y “creodd Duw y nefoedd a'r ddaear”? (Eseia 40:26; *g99* 6/22 6-7; *ct* 89-91; *it-1* 526)

Mae gan Dduw yr hawl i weithredu ei reolaeth dros yr hyn mae'n gyfrifol am ei fodolaeth (Salm 36:9; Dat 4:11; *bh* 125)

Gweithreda ei reolaeth er budd a lles ei greadigaeth (Gen 1:31; 2:8, 9, 15; Salm 19:7-11; Micha 6:8)

MAE JEHOFAH YN GWEITHREDU EI REOLAETH MEWN Ffordd GARIADUS (4 mun.)

'Roedd pob agwedd ar fyw yn rhoi pleser i'r pâr dynol cyntaf

'Doedd dim rhaid iddyn' nhw gadw at restr hir o reolau; 'roedd gofynion Duw yn syml, a hawdd oedd cydymffurfio â nhw (1Tim 1:8-11; *bh* 48; *it-2* 160)

'Doedd Adda ac Efa ddim yn anghysurus, yn teimlo fod Duw yn gyson arolygu neu reoli bob symudiad o'u heiddo

Ond mynnai Jehofah fod Adda ac Efa yn cydnabod ei hawl i benderfynu da a drwg (Gen 2:16, 17; *w03* 1/1 4; *bh* 61)

'Roedd ganddynt y cyneddfau a'r adnoddau meddyliol i ufuddhau felly

Ni fyddai ufudd-dod yn golygu cael eu hamddifadu o unrhyw beth o fudd

Cariad yw sail brenhiniaeth Jehofah (*it-2* 275)

Amlygodd ei gariad wrth greu dyn ar Ei ddelw, gyda'r gallu a'r cyneddfau i garu, a hefyd wrth ei ddatgelu ei hun i ddynt (Ge 1:26-28)

HERIO HAWL DUW I REOLI — SUT DIGWYDDODD HYN? (5 mun.)

Heriodd Satan *hawl* Duw i reoli (*bh* 109)

Awgrymodd fod Jehofah wedi dweud celwydd wrth Adda (Gen 3:1-5; Dat 12:9)

Dengys gweithredoedd Satan ei fod yn gwrthod cydnabod brenhiniaeth Jehofah

Anogodd eraill i ymuno yn ei wrthryfel

Cododd y Diafol hefyd amheuaeth ynglŷn â'r *ffordd* 'roedd Duw yn llywodraethu

Awgrymodd fod Jehofah yn atal buddion rhag Ei greaduriaid (*it-2* 963)

Mynnai y gallai dyn reoli arno'i hun yn llwyddiannus heb Dduw

Byddai angen cyfnod o amser i ateb y pwnc dadl a gododd Satan (*bh* 110-13)

Fe ganiatawyd i Satan gychwyn a rheoli byd a chyfundrefn (*bh* 31-2) (2Cor 4:4)

Ond eto Jehofah biau y “ddaear a'i llawnder” (Salm 24:1)

Yn ystod y cyfnod hwn nid yw Jehofah wedi ymyrryd â'r sefyllfa i gywiro'r problemau oedd yn codi (*bh* 112)

Dyfais Satan ydi'r syniad fod Jehofah wedi colli rheolaeth

Ac eto, mae Jehofah wedi dangos ei oruchafiaeth ym materion y ddaear

O'R CYCHWYN MAE JEHOFAH WEDI CADW EI SAFLE FEL PENARGLWYDD (12 mun.)

Er i'r ddaear ddatblygu'n ganolfan gwrthryfel ni ildiodd Jehofah ei hawl fel brenin arni (Salm 103 :19)

Yn ystod y cyfnod cyn y Dilyw, dangosodd Jehofah ei fod yn fodlon rhoi arweiniad i'r sawl fyddai'n ei geisio, fel Abel, Enoch, a Noa

Adeg y Dilyw gwelwyd gallu Duw i weithredu ei ewyllys

Yn ei ymwneud ag Abraham a chenedl Israel fe brofodd Jehofah Ei fod yn parhau i weithredu yn Benarglwydd y ddaear (Salm 105:6-15; *it-2* 161-2)

Amlygodd ei reolaeth wrth iddo drefnu i Asyria a Babilon weithredu i gyflawni ei fwriad (Eseia 10:5-7; Esec 21:18-23)

Gweithredodd ei farn gyflawn yn Benarglwydd pan benderfynodd atal ei amddiffyn dros ei bobl (Jer 35:17)

Er iddo ganiatáu i'r genedl gael ei chaethgludo, gwelwyd grym Duw ar waith wrth iddo drefnu y byddai proffwydoliaethau am Iesu yn cael eu gwireddu (Salm 89:3, 4, 35-37; *it-2* 663)

Yn ystod y cyfnod hwnnw, gwelwyd, dro ar ôl tro, gallu Jehofah i amddiffyn ac i gadw'r sawl fyddai'n ei ystyried yn Benarglwydd arnynt (Dan 3:13-29; 6:12-27)

Felly, dros filoedd o flynyddoedd, ni roddwyd cyfle i ddim ymyrryd â chyflawni bwriad Jehofah

Y DEYRNAS FESEIANAIDD YN PLEIDIO HAWL JEHOFAH I REOLI (9 mun.)

Amlygwyd grym brenhiniaeth Jehofah dros ei greadigaeth mewn amryw o ffyrdd gan ei Gynrychiolydd brenhinol
Gweithredodd Iesu reolaeth dros y tywydd, dros blanhigion, dros anifeiliaid, dros fodau dynol, a thros ysbryd
greaduriaid (Math 8:26-32; 9:35; 17:27; 21:19)

'Dyma brawf fod ei awdurdod yn deillio oddi wrth y Penarglwydd (Math 9:2-8)

Pan gafodd Iesu ei arestio, ei brofi, a'i ddienyddio, fe allai hyn fod wedi rhoi'r argraff fod Jehofah wedi colli rheo-
laeth dros y sefyllfa, ond mewn gwirionedd gwelwyd gwireddu proffwydoliaethau Duw mewn ffordd rymus yn
y digwyddiadau hyn (Luc 24:19-27, 44; Ioan 19:10, 11; *it-2* 169)

Teyrnas Dduw yn nwylo Crist Iesu, yr hir broffwydoliad amdani, yw cyfrwng dewisol Jehofah i bleidio'i hawl
i deyrnasu (Dan 2:44, 45)

Bydd y Deyrnas yn dirymu'r holl ddiodefaint a ddaeth yn sgîl llywodraeth dyn

Wedi i'r Deyrnas Feseianaidd gyflawni'i gwaith, caiff ei dychwelyd at Jehofah (1Cor 15:21-28; *bh* 112)

Ond bydd ei llwyddiannau llesol yn para am byth

Yn fuan bydd Jehofah yn gweithredu i roi diwedd ar ddrygioni ac fe fydd yn dileu byd Satan (Salm 37:9-11;
2Thes 1:6-9; 1Ioan 2:17; *bh* 94)

DANGOSWCH EICH BOD YN CARU'R FFORDD MAE JEHOFAH YN RHEOLI (12 mun.)

'Rydym oll â rhan ym mhwnic penarglwyddiaeth (Job 2:3-5; *cl* 124; *it-1* 1210)

Dymuna Jehofah inni ei wasanaethu o'n bodd oherwydd ein bod yn ei garu (Deut 10:12-21; 30:6, 15-20; Esea 1:
18-20; *bh* 113-14)

Mae'n rhoi inni'r rhyddid i ddangos fod yn well gennym ei benarglwyddiaeth ef a'n bod ni'n caniatáu iddo
lywodraethu'n bywydau

Cydnabyddwch yr awdurdod a roddwyd i Grist ac ymostwng iddo (*be* 276)

Mae gan y Crist hawl gyfreithiol i'n hufudd-dod (Gen 49:10; Math 28:18)

Ni roddwyd yr hawl hon i neb arall (Jer 10:23; Actau 4:12)

Mae hyn yn berthnasol i'n gweithgareddau bob dydd, ein penderfyniadau, a'n hamcanion

Wrth ufuddhau i orchmynion Crist dangoswn ein bod yn gwerthfawrogi penarglwyddiaeth Jehofah ac yn ei
barchu (*wt* 58-9)

Pan wnawn yr hyn sy'n iawn, mae calon Jehofah yn llawenhau (Diar 27:11; *w03* 4/15 14-15)

Mae Jehofah yn bendithio'r rhai sy'n caru ei benarglwyddiaeth (*w94* 11/1 7)

I grynhoi, 'rydym wedi trafod fod gan Jehofah yr hawl i reoli'r hyn sy'n digwydd ar y ddaear ac i gyfeirio'n
bywyd personol

Gweithreda'r fath hawl mewn ffordd gariadus

O ganlyniad i'r gwrthryfel gwreiddiol, mae Jehofah wedi caniatáu i Satan a bodau dynol fyw yn annibynnol
ar Ei lywodraeth

Ond, nid yw wedi ildio'r hawl i reoli materion

Mae wedi gweithredu'r hawl hon yn unol â'i fwriad

Yn fuan, trwy gyfrwng y Deyrnas Feseianaidd, bydd Duw yn ail-sefydlu rheolaeth lwyr dros faterion y ddyn-
oliaeth

Ymhen amser, bydd pawb sy'n fyw yn cydnabod hawl Jehofah i lywodraethu (Salm 83:17, 18; Esec 38:23)

(Mae defnydd pellach i'w gael yn *Insight*, Cyfrol 2, tudalennau 159-70, 1008-12, a *Bible Teach*, tudalennau 8-17,
27-36, 106-14)

(Glynwch yn glòs wrth y defnydd a amlinellir, a chadw at amseru'r gwahanol adrannau. 'Does dim rhaid dar-
llen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt. Gweler *Ministry School*, tudalennau 52-4)